LLEWYRCHED FELLY EICH GOLEUNI

# Y Llusern

Eglwys Ebeneser Tachwedd/Rhagfyr 2024 Cyfrol 95 Rhif 6

*Rhown foliant o'r mwyaf*
*i Dduw y Goruchaf*
*am roi'i Fab anwylaf*
*yn blentyn i Fair,*
*i gymryd ein natur*
*a'n dyled a'n dolur*
*i'n gwared o'n gwewyr anniwair.*

*Fe gymerth ein natur,*
*fe'n gwnaeth iddo'n frodyr,*
*fe ddygodd ein dolur*
*gan oddef yn dost;*
*fe wnaeth heddwch rhyngom*
*a'i Dad a ddigiasom,*
*fe lwyr dalodd drosom y fawrgost.*

*Fe'n gwnaeth ni, blant dynion,*
*yn ferched, yn feibion,*
*i'w Dad yn 'tifeddion*
*o'r deyrnas sydd fry,*
*i fyw yn ei feddiant*
*mewn nefol ogoniant*
*er mawrglod a moliant i'r Iesu*

*Gwahoddwch y tlodion*
*a'r clwyfus a'r cleifion*
*a'r gweiniaid a'r gweddwon*
*â chroeso i'ch gwledd;*
*o barch i'r Mesïas*
*a'n dwg ni i'w deyrnas*
*i gadw gŵyl addas heb ddiwedd.*

**Y Ficer Pritchard**

Cyfansoddwyd y garol hon gan Rhys Prichard (1579? – 1644) a hannai o ardal Llanymddyfri. Aeth i Goleg Iesu, Rhydychen ac fe'i ordeiniwyd yn Wittham Essex ac yn ficer Llanymddyfri ym 1602. Dechreuwyd argraffu gwaith Rhys Prichard gan Stephen Hughes oddeutu 1658 ac ym 1681 cafwyd argraffiad cyfan o'i waith sef *Canwyll y Cymru: Sef, Gwaith Mr. Rees Prichard, gynt Ficcer Llanddyfri*. Cynnwys y gyfrol yw penillon – digon clogyrnaidd weithiau - gan y ficer yn annog pobl i ddilyn Iesu yn ffyddlon a disgybledig. Yn y gyfrol hon yr ymddengys y garol hon.

## Gair gan y gweinidog.

Wrth i flwyddyn arall dynnu i'w therfyn hoffwn fynegi gair o ddiolch i chi am eich ffyddlondeb, eich gweddïau a'ch holl waith. Fel pob blwyddyn bu'r daith yn gyfuniad o'r melys a'r chwerw. Buom yn wylo gyda'n gilydd o ganlyniad i golledion a salwch. Buom yn addoli'r Arglwydd byw a dathlu ei fuddugoliaeth yn gyson. Cawsom trwy ein gweithgareddau gyfle i weithredu egwyddorion Ei Deyrnas. Cawsom gyfle i chwerthin yn sgil troeon trwstan ac achlysuron cymdeithasol. Rydym ar bererindod gyda'n gilydd fel eglwys Ebeneser ac ar y daith rydym yn cynnal, annog a chefnogi ein gilydd fel disgyblion i'r Iesu.

"Byddwch o ddifri yn eich gofal am eich gilydd, a dangos parch at eich gilydd. Peidiwch byth â gadael i'ch brwdfrydedd oeri, ond bod ar dân yn gweithio i'r Arglwydd yn nerth yr Ysbryd Glân."

**Rhufeiniaid 12: 10 – 11 beibl.net**

Wrth edrych ar gyflwr y byd, gwelwn cymaint o angen sydd am Iesu a'i efengyl. Ac wrth graffu ar gyflwr ein cenedl ein hunain, cenedl y Cymry, gwelwn yr angen dybryd am adnewyddiad ysbrydol. Mae cymaint o anobaith, digalondid ac iselder i'w weld ond yn yr Iesu fe gawn obaith a llawenydd na all dim ei ladrata oddi arnom.

Gwn pa le mae'r cyfoeth gorau,
gwn pa le mae'r trysor mawr;
profais flas y bywyd newydd,
O fendigaid, fwynaf awr:
grym y cariad
a'm henillodd innau'n llwyr.

***W. Rhys Nicholas***

Rwyf yn ei chyfrif yn fraint aruthrol o gael bod yn rhan o deulu Ebeneser ac yn teimlo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ein bod wedi rhannu mwy yn y gwaith a'r arweinyddiaeth nac a wnaethom yn y gorffennol. Rhan bwysig o'n dyfodol yw gweld fod gan bawb ohonom ddoniau amrywiol ac y mae angen annog ein gilydd i'w defnyddio.

Ar derfyn y flwyddyn diolchwn i'r Arglwydd am ei gynhaliaeth ac am bresenoldeb yr Ysbryd Glân sy'n ein nerthu'n ddyddiol. Heb hynny buan y byddai ein nerth a'n hysbryd yn pallu yn llwyr yn yr hinasawdd ysbrydol bresennol.

Felly hoffwn ddymuno Nadolig Llawen i bawb ohonoch a blwyddyn newydd dda. Boed i Oleuni'r Byd lewyrchu yn eich calonnau ac ar eich llwybrau fel eich bod chi yn eich tro yn ymbelydru gyda goleuni ei gariad.

***Alun***




Gostwng dy glust, ein Duw grasol, i wrando ar ein hymbiliau wrth inni alw i gof addewidion gwerthfawr ein Harglwydd Iesu Grist i ddod drachefn yn ei ogoniant i'n byd ni. Daeth i'n plith ni gyntaf yn ddarostyngedig, ar agwedd gwas. Yn ei ailddyfodiad fe ddaw yn ei holl ogoniant gyda'r angylion sanctaidd. Y tro cyntaf daeth mewn dull fel dyn, a hawdd y gallai pobl fethu ei adnabod. Pan ddaw yr eildro, ni fydd amheuaeth pwy ydyw. Deisyfwn arnat feithrin ynom hiraeth am weld y diwrnod mawr hwnnw'n dod. Amddiffyn ni rhag i atyniadau a phrysurdeb y byd hwn bylu'r hiraeth. Y mae'r Arglwydd Iesu wedi'n rhybuddio ni i fod yn barod, fel y morynion yn ei ddameg, gydag olew yn ein lampau pan ddaw'r Priodfab i'r wledd. Gwna ni'n bobl barod, oherwydd fe ddaw ei ddiwrnod fel lleidr yn y nos ac ni fynnem fod yn cysgu pan ddaw. A phâr i'r gobaith godidog am ei weld yn dod yn ei holl ogoniant ein diogelu ni rhag pesimistiaeth a digalondid. Os digwydd inni orfod dioddef ein difenwi a'n camfarnu, ein gorthrymu a'n cam-drin, rho ras inni barhau'n ffyddlon hyd yn awr pan ymddangoso'r Brenin. Gyda'r Eglwys trwy'r byd ymbiliwn, "Yn wir, tyred, Arglwydd Iesu." Amen

***R. Tudur Jones, 1921 – 1998, Gweddïo, 1992.***

---

**Prosiect Y Gadair Goch**

## Sefyll yn erbyn cam-drin domestig.


Mae Ebeneser eleni wedi gweithredu i dynnu sylw at yr ymgyrch hon yn erbyn cam-drin domestig.

Yn fyd-eang, mae menyw neu ferch yn marw bob 11 munud, o ganlyniad i gamdriniaeth gan bartner neu aelod o'r teulu. Dylai'r merched hyn fod gyda ni o hyd.

Mae Prosiect y Gadair Goch yn ymgyrch gan Gristnogion sy'n rhan o 16 Diwrnod o Weithredu yn Erbyn Trais ar sail Rhywedd. Mae'n annog unigolion, mudiadau ac eglwysi i gadw cadair sy'n nodi'r gwagle a adawyd gan bob un o'r merched hyn a gollodd eu bywydau.

Tachwedd 25ain oedd y "Diwrnod Rhyngwladol ar gyfer Dileu Trais yn Erbyn Menywod,"

"Mae'r ARGLWYDD wedi dweud beth sy'n dda, a beth mae e eisiau gen ti: Hybu cyfiawnder, bod yn hael bob amser, a byw'n wylaidd ac ufudd i dy Dduw." Micha 6:8. *(Llun o'r Gadair Goch ar y dudalen gefn.)*



## Gwaith Cymdeithas y Beibl yn Tsieina a Gweriniaeth y Congo
### - *Ifan Roberts* -



Yn oedfa bore Sul, Hydref 27ain, gan ei bod yn Sul y Beibl, cafwyd cyfle i sôn am waith Cymdeithas y Beibl a Chynllun Beibl y Mis, a chyfeiriwyd at y pamffledyn sy'n rhannu gwybodaeth am y cynllun. Yn y rhifyn cyfredol canolbwyntir ar Tsiena a Gweriniaeth y Congo, dwy wlad wahanol iawn: Tsieina gyda phoblogaeth o 1,416 miliwn a'r Congo 6.1 miliwn.

Ceir hanes Arleen Luo, sy'n wreiddiol o Tsieina ac sydd bellach yn gweithio i Gymdeithas y Beibl yn Asia. Mae'n sôn am ei hymweliad â Tsieina yn ddiweddar, ac am y twf aruthrol sydd yn yr eglwys Gristnogol yno. Yn 1984 y gwahoddwyd Cymdeithas y Beibl, gan yr awdurdodau yn Tsieina, i sefydlu cwmni cyhoeddi Amity yn Nanjin. Ers hynny mae can miliwn o feiblau wedi'u hargraffu a'u dosbarthu yn Tsieina. Ond y broblem fawr ar hyn o bryd yw diffyg arweinyddion yn yr eglwysi. Ar gyfartaledd dim ond 1 gweinidog ordeiniedig sydd ar gyfer 6,700 o Gristnogion. Mae Cymdeithas y Beibl ac asiantaethau Cristnogol eraill yn ymdrechu i hyfforddi arweinwyr newydd i arwain yr eglwys i'r dyfodol, ac i helpu Cristnogion newydd i ddeall y Beibl. Yn ddiweddar, wedi 15 mlynedd o waith, cyfieithwyd y Beibl cyfan i'r iaith Gani ac mae cynlluniau i gynhyrchu mwy o gyfieithiadau yn rhai o ieithoedd lleiafrifol Tsieina.

Mae Arleen yn gofyn am ein gweddïau y bydd yr Eglwys yn parhau i dyfu a gair Duw yn cael ei ledaenu fwyfwy ymhlith poblogaeth enfawr Tsieina.

Yng Ngweriniaeth y Congo, er mai Ffrangeg yw'r iaith swyddogol, mae poblogaeth y Congo yn siarad dwsinau o ieithoedd lleol a nod Cymdeithas y Beibl yn y Congo (sefydlwyd yn 1995) yw cyfieithu'r Beibl i'r ieithoedd brodorol. Yn ddiweddar cwblhawyd cyfieithu Beibl i iaith Beembe sy'n cael ei siarad gan tua 100,000 o bobl. Cyfieithwyd y Beibl hefyd i iaith Lari. Mae Dr Christian Ntondele, cynrychiolydd Cymdeithas y Beibl yn y Congo yn gofyn am ein gweddïau y bydd y cyfieithiadau hyn yn arwain at dyfiant ysbrydol pellach yn ardaloedd Beembe a Lari, wrth i'r bobl glywed Duw yn siarad â hwy yn eu hiaith eu hunain.

Os am fwy o wybodaeth am Gynllun Beibl y Mis ewch i wefan Cymdeithas y Beibl. biblesociety.org.uk.

CYMDEITHAS Y BEIBL

## Clegar

Yn ystod tymor yr hydref dangoswyd cyfres o fideos yn ein hoedfaon ar fore Sul yn dwyn y teitl Clegar. I'r rhai hynny oho nom sydd wedi ein magu yn y ddinas, ystyr clegar yw'r sŵn mae adar yn ei wneud. (Dyma ddifiniad Geiriadur Prifysgol Cymru o'r gair - gwneuthur sŵn (am adar), clocian, clwcian, trydar, clochdar; mân siarad, hel straeon, chwedleua: *to cry (of birds), cackle, cluck, clack; tattle, prattle, gossip*. Bwriad y fideos yw dysgu mwy am weithgareddau a gweledigaeth Cristnogion eraill yng Nhgymru ac ar hyd a lled y byd, fel ein bod yn cael ein hysbrydoli wrth weld ymroddiad eraill. Y mae cyfle wedyn i weddÏo tros waith y Deyrnas mewn mannau eraill. Gellir eu gweld ar sianel Youtube Ebeneser.


**Hyfforddi**



Yn y fideo cyntaf cafwyd cyfweliad gyda'r Parch. Carwyn Siddall, Llanuwchllyn. Ef yw Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau'r Undeb. Rhannodd gyda ni am ei waith a'i weledigaeth a'r cyrsiau y mae yn eu cynnal. Eisoes y mae wedi cynnal cyrsiau hyfforddi ar gyfer pobl sydd â diddordeb mewn pregethu, fel eu bod yn gwella eu sgiliau. Gellir cael cymhwyster gan yr Annibynwyr fel pregethwr cynorthwyol.

Hefyd cynhaliwyd cwrs 8 sesiwn ar addoliad ac astudio'r Beibl, o dan arweiniad Arfon Jones. Yn raddol, mewn cydweithrediad â nifer o arbenigwyr, y mae Carwyn yn paratoi modiwlau newydd ar Hanes yr Eglwys. Newyddion da yw bod nifer eisoes wedi eu cymeradwyo i fod yn bregethwyr cynorthwyol ac eraill am ddilyn cyrsiau addysg uwch. Mae'r cyrsiau, gan fwyaf, yn cael eu cynnal yn rhithiol ar Zoom. Os oes gennych ddiddordeb i ddatblygu eich doniau fel pregethwr neu arweinydd mewn cynulleidfa, rhowch wybod i Alun.

**Gwlad y Basg**



Yn yr ail fideo cafwyd sgwrs gyda Dan Scott, sydd wedi plannu eglwys yn nhref Orio, Euskal Herria (Gwlad y Basg). Mae oddeutu 800,000 o bobl yn siarad Euskara (Basgeg) ac y maent yn byw ar y ffin rhwng Sbaen a Ffrainc. Ychydig iawn o eglwysi sydd yn addoli trwy gyfrwng y Basgeg ac felly mae gwaith Dan yn eithriadol o bwysig. Ar hyn o bryd maent yn cyfarfod yn bythefnosol mewn caffi. Mae hwn o ddiddordeb mawr i ni fel Cymry Cymraeg, gan fod Dan yn gweithio trwy gyfrwng iaith leiafrifol o

fewn i ddiwylliant mwyafrifol Sbaeneg. Gellir gweld rhagor o'r hanes ar wefan linguaechristi.org euskara/

**Aotearoa**



Bydd y cyfweliad olaf am eleni yn cael ei ddangos mewn oedfa yn ystod mis Rhagfyr. Y tro hwn bydd Alun yn siarad gyda'r Parch. Mitchell Jaram o Aotearoa (Seland Newydd) am ei waith yn yr Eglwys Bresbyteraidd. Mae ef yn gweithio yng Ngofalaeth Maori Whakatane, Auckland, ar ynys y gogledd, trwy gyfrwng yr iaith Maori.

---




Mae ambell i olygfa a welwn yn peri rhyfeddod. Cofiaf sylwi ar ddwylo bychan ein plant wedi eu geni. Yr ewinedd, y bysedd, y cledrau, y cymalau, y crychau ffurfiedig yn destun rhyfeddod a diolch. Cofiaf deithio adref o Lanrwst ar ddiwedd hirddydd haf a chael fy nghyfareddu gan liwiau'r machlud belydrent trwy fwlch Nant Ffrancon a'u hadlewyrchiad yn llonyddwch llyn Ogwen.

Wrth inni gamu i mewn i dymor yr Adfent fe ddeuwn wyneb yn wyneb â gwirionedd sy'n peri i ni oedi a rhyfeddu oherwydd ei ysblander. Fe gipia ein gwynt. Lleinw ein meddyliau â goleuni. O'i gredu a deall ei arwyddocad fe ddaw a'r "Haleliwia i'n heneidiau ni." Ni ellir ei ddeall yn llawn, oherwydd delio rydym yma â dirgelion Duw ei hun. Rhyfedda Pantycelyn,

"Ymhlith holl ryfeddodau'r nef,
Hwn yw y mwyaf un
Gweld yr anfeidrol ddwyfol Fod
Yn gwisgo natur dyn."

Y gwirionedd hwnnw yw'r ymgnawdoliad. Yn syml, bod y Duw tragwyddol wedi gwisgo ein cnawd a'n natur ni yn gyflawn a dod i'n plith yn Iesu. Dwi'n gwybod, dwi'n gwybod, mae'n swnion anghredadwy. Tipyn o wyddonias crefyddol meddech! Ond dyma'r ffaith a gyflwynir i ni am yr Iesu yn y Beibl, ac fe'i pwysleisir yn nhymor yr Adfent. Dyma'r gwirionedd sy'n bwrw goleuni ar aruthredd cariad Duw a'r hyn y mae wedi ei wneud yn ei Fab. Mae'r ymgnawdoliad o'i gredu yn esbonio'r hyn ddywed y Beibl, yn cynnwys. Sut y gallai'r proffwydi ddarogan Ei ddyfodiad? Sut gallai ei eni fod yn wyrthiol? Sut y gallai gyflawni gwyrthiau? Sut gallai ei farwolaeth ddod a maddeuant

pechodau? Sut y gallai atgyfodi ar ôl marw? Sut y gallai ddweud y byddai dod yn ôl rhyw ddydd? Daw'r ateb yn y ffaith mai ef yw'r Duw-ddyn.



"Daeth y Gair yn berson o gig a gwaed; daeth i fyw
yn ein plith ni. Gwelon ni ei ysblander dwyfol -
ei ysblander fel Mab unigryw wedi dod oddi wrth
y Tad yn llawn haelioni a gwirionedd."
Ioan 1: 14 beibl.net

Dathlwn hyn nid yn unig adeg y Nadolig ond o ddydd i ddydd gan sylweddoli fod iachawdwriaeth, gobaith sicr a dedwyddwch tragwyddol trwy'r person dwyfol hwn.

---

## NEWYDDION

**Cyfarfodydd Pregethu**



Cawsom gwmni Rhodri Glyn yn ein cyfarfodydd pregethu blynyddol ar ddydd Sul,13eg o Hydref. Pregethodd yn y bore ar ffydd y swyddog milwrol Rhufeinig a'i esiampl i ni. Yn y pnawn aeth i Jeremeia a neges Duw i'w bobl a beth sydd gan hynny i'w ddweud wrthon ni. Braf oedd hefyd croesawu aelodau eglwysi Cymraeg canol y ddinas i'n plith. Diolch am ei gwmni a'i neges i ni.

**Diolchgarwch**

Ar fore Sul, 20fed o Hydref cynhaliwyd Llan Llanast yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd a daeth criw o thua 25 o blant, heblaw am oedolion, i fore o weithgareddau a dathlu. Roedd hefyd yn gyfle am gyfraniadau o fwydydd, fyddai'n cael eu rhoi i rannu i ymgeiswyr lloches, drwy law Enfys Gobaith. Cawsom gyfle i gymdeithasu gyda lluniaeth ysgafn ar y diwedd.



**Arweinydd Newydd**

Anfonwyd cyfarchion i Eglwys y Crwys wrth i Tomos Williams, aelod ac ysgrifennydd yr eglwys, ddechrau ar ei waith fel Arweinydd, yn dilyn ei benodiad ar Sul olaf Hydref.

**Cleifion**

Bu Eynon Williams yn yr Ysbyty yn cael llawdriniaeth ar ddydd Gwener, 8fed o Dachwedd. Cafodd fynd adre drannoeth. Dymunwn wellhad buan iddo.

**Bytholwyrdd! Beth? Pwy? Pam?**

Ychydig dros flwyddyn yn ôl, ym mharti (syrpreis) penblwydd mawr Petra Bennett, sylweddolom fod nifer fawr ohonom, aelodau Ebeneser, yn ferched 50++, a bod angen i ni ddyfnhau cyfeillgarwch tu hwnt i weithgareddau'r capel, i fod yna i gefnogi ein gilydd trwy holl droeon bywyd.



Felly dyma ni. ferched Bytholwyrdd, wedi mwynhau blwyddyn a rhagor o bob math o shenanigans: tapas, cyrri, coffis diri, cyngherddau (dynion yn ymuno weithiau!) gwibdeithiau, sgwrsio, cerdded, chwerthin ac annog ein gilydd ym mhob achlysur. Dilyn ôl traed yr hybarch Chwiorydd i ryw raddau. Os am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Enfys Harding neu Lis (Elisabeth) Decaro. Ymlaen!

Wedi cael amser da un dydd Sadwrn yn mis Hydref—jolihoet ar y trên i Cheltenha gyda rai o ferched Bytholwyrdd.



**OCC** Braint o'r mwyaf yw cael cefnogi cynllun blynyddol Samaritan's Purse eto eleni. Diolch am eich haelioni fel aelodau Ebeneser am gyfrannu nifer o focsys i'r achos teilwng hwn. Cyfrannwyd rhai ar lein hefyd. Ers 1990 mae dros 220 miliwn o focsys wedi'u cyfrannu i blant mewn angen ar draws y byd. Y bwriad eleni yw cyfrannu o leiaf 260,000 o focys yn ychwanegol. Gobeithio y byddwn yn clywed fod y targed hwn wedi'i gyrraedd. Ond mae gwaith y mudiad hwn yn gymaint mwy na'r bosys hyn. I ddarllen mwy am waith y mudiad, ac i gyfrannu ar lein os dymunwch, ewch i: www.samaritans-purse.org.uk. Yno cewch ddewis i ba ran o'u gwaith rydych am gyfrannu iddo.

**Mamaléd**
£250. Wel dyna beth ydy swm teilwng! Mae'r diolch i Lis Decaro am wneud mamaléd cartref a'i werthu i aelodau Ebeneser er budd ein helusennau eleni. Daeth arian hefyd o gynnal bore coffi i'w ffrindiau a chyn-gydweithwyr gan werthu iidynt hwythau a chynnal raffl. Bydd mwy o mamalar gael ar yn yr oedfa garolau anffurfiol, bnawn Sul, 15fed o Ragfyr. Cofiwch ddod ag arian!

**Sul y Sannau**
Cynhaliwyd ail Sul y Sanau ar 27ain o Hydref a chyfrannwyd cannoedd o barau o sanau i'r Gornel Glyd. Wrth i'r tywydd oeri mae cymaint mwy o alw am sanau cynnes gan ei bod yn anodd cadw traed yn lân ac yn sych. Mae pawb sy'n ymwneud â'r Gornel Glyd yn werthfawrogol iawn ac yn diolch o waelod calon i aelodau Ebeneser am eu haelioni.

**Profedigaeth**
Trist oedd clywed am farwolaeth Cedric Jones, Radyr ar 20fed o Dachwedd. Cydymdeimlwn gyda Brenda, Wendy, Jonathan a'u teuluoedd yn eu colled a'u hiraeth. Bu Cedric yn ddiacon cydwybodol, organydd rhagorol, yn cadw golwg cyson ar y capel a'r mans ac yr oedd bob amser yn llawn hwyl a thynnu coes. Diolchwn am ei fywyd.

---

## Y Ffwrnais Ffyrnig!

Hanes Sadrach, Mesach ac Abednego oedd thema Llanllanast Tachwedd - y tri llanc wrthododd blygu i ddelw'r brenin Nebwchadnesar. Ond efallai nad yw pawb ohonoch yn gwybod beth yw Llanllanast!

Rydym yn Ebeneser yn cynnal Llanllanast unwaith y mis, gan gynnig gwahanol grefftau a gemau ar thema Feiblaidd i deuluoedd. Caiff y plant symud o fwrdd i fwrdd a chasglu gwybodaeth am y stori. Dyma weithgareddau'r Ffwrnais Ffyrnig.

- gêm taflu bag ffa at 6 fflam bapur gan geisio taro'r fflamau sy'n cuddio'r tri llanc
- adeiladu ffwrnais ffyrnig allan o gwpan, papur oren a channwyll batri,
- 'spinner' yn dangos y fflamau'n amgylchynu'r tri llanc
- bricsen boeth (bisged ag eisin lliw fflamau)
- peintio fflamau o amgylch silwét o'r tri llanc

Ymunodd pawb i ganu cân ar y thema a gwylio fideo yr oedd Alun wedi ei dybio i'r Gymraeg cyn mwynhau ychydig o ddanteithion.
*(Lluniau ar y dudalen gefn.)*

# Cyfarfodydd Angor

BAY CHURCH
GRANGETOWN

Dyma gipolwg yn ôl i'r 19eg o Hydref pan fentrodd 4 o 'fechgyn' Angor am dro i ben mynydd Y Garth. Oedd roedd hi'n hyfryd o braf ond yn anffodus fe ddaeth y glaw yn fuan iawn ar ôl tynnu'r llun. Er gwaethaf hynny cafwyd amser da yng nghwmni ein gilydd. Tybed i ben pa mynydd fydd y daith nesaf? Gobeithio y bydd mwy yn gallu ymuno.



**Y Bwrdd**
Bob yn ail wythnos mae criw Angor yn parhau i gwrdd yn nhai ei gilydd i gymdeithasu dros bryd o fwyd. Mae'n gyfle i ymlacio a dod i adnabod ein gilydd yn well.




**Cyfarfodydd dros y Nadolig**
Mae croeso i chi ymuno â ni dros y Nadolig i ddathlu Gŵyl y Geni.

**8fed o Ragfyr** – Gwasanaeth teulu am 4:00yp yn Bay Church.
**15fed o Ragfyr** – Canu Carolau yn Nhafarn y Grange, Corporation Rd am 7:30yh.
**22ain o Ragfyr** – Gwasanaeth Carolau am 4:00yp yn Bay Church.

---

*"Fi ydy'r winwydden; chi ydy'r canghennau.*
*Os gwnewch chi aros ynof fi, a minnau ynoch chi,*
*bydd digonedd o ffrwyth yn eich bywydau.*
*Ond allwch chi wneud dim ar wahân i mi."*



# Calendr

Cynhelir oedfa’r bore yng Nghanolfan yr Eglwys Newydd, Old Church Rd, CF14 1AD.

Cynhelir oedfa’r pnawn yng nghapel y Methodistiaid, Penlline Rd, CF14 2AA. .

Cynhelir Angor ar yr ail ar pedwerydd Sul o bob mis yn Bay Church, Corporation Rd, Grangetown am 4:30yp.

Pob nos Lun am 7.30 y,h., cynhelir y cwrdd gweddi yng nghapel y Methodistiaid ac ar Zoom. Dolen yn yr e-bost wythnosol.

## Suliau Rhagfyr 2024

**1 Rhagfyr** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp Oedfa gymun yn yr Eglwys Fethodistaidd dan ofal Alun.
**5 Rhagfyr** - Oedfa 15 munud am 1:00yp.yn yr Eglwys Fethodistaidd.
**8 Rhagfyr** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd. Oedfaon Cymorth Cristnogol.
**15 Rhagfyr** - 10:00yb Llan Llanast i pawb yn CEN a 3:00yp Oedfa garolau anffurfiol yn yr Eglwys Fethodistaidd.
**22 Rhagfyr** - 10:00yp “O deuwch ffyddloniaid” yn CEN dan ofal Alun. 6:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd - Oedfa garolau ddwyieithog.
**25 Rhagfyr** 9:30 y bore. Gwasanawrh bore Nadolg yn yr Eglwys Fethodistaidd. Gwneir casgliad at Marie Curie a Hosbis y ddinas.
**29 Rhagfyr** 10:00 y bore yn unig - i’w gadarnhau.

**BLWYDDYN NEWYDD DDA**
**LLAWN BENDITHION I CHI YN 2025**

**5 Ionawr** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd dan ofal Alun.
**9 Ionawr** - Oedfa 15 munud am 1:00yp.yn yr Eglwys Fethodistaidd.
**12 Ionawr** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd dan ofal Alun.
**19 Ionawr** - 10:00yb Llan Llanast yn CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd dan ofal Alun.
**26 Ionawr** - 10:00yb yn CEN a 3:00yp Yr Eglwys Fethodistaidd dan ofal Alun.



**Criw 'Bytholwyrdd' yn mwynhau pryd o fwyd.**



**Mamaléd Lis Decaro**



**Gweithdy Torch Nadolig**
Nos Wener, 6ed o Ragfyr
7:00yh tan 9:00yh
Yr Eglwys Fethodistaidd,
Cost: £45.00
Elw yn mynd i Hosbis y Ddinas.



**Dyma 2 enghraifft o waith plant yn Llan Llanast Tachwedd.**




**Y Gadair Goch**

